

## OL-NODIAD

**Y**SYWAETH, ni chafodd y diweddar Ddr. R. T. Jenkins fyw i weld cyhoeddi'r gyfrol hon. Bu farw ar 11 Tachwedd 1969 pan oedd y gyfrol yn nwylo'r argraffwyr. Daw cyfle eto i dalu teyrnged iddo am ei gyfraniadau eithriadol werthfawr i'r *Bywgraffiadur Cymreig* dros lawer o flynyddoedd. Wrth roddi'r Olygyddiaeth heibio ysgrifennodd y Rhagair uchod ar gyfer y gyfrol hon. Cedwais ef fel y'i hysgrifennwyd ar wahân i fân gyfnewidiadau y bu galw amdanynt oherwydd newid peth ar y cynllun fel y gwelir isod.

Parhaodd diddordeb R.T. yn y gwaith hyd onid aeth diffyg golygon a llesgedd yn drech nag ef, ond hyd yn oed wedyn, diolch i'w '*amanuensis*' deyrngar, cefais gyfarwyddiadau gwerthfawr ganddo. Er mai ef a fu'n bennaf gyfrifol am gynnwys yr Atodiad i'r gyfrol hon, cafwyd nifer o gywiriadau hyd at yr argraffu. Bu Miss Beatrice Davies yn ddyfal wrth gorffori'r cywiriadau yn eu priod leoedd, ac y mae'n ddyletswydd arnaf ddiolch iddi hi yn ogystal ag i nifer o gyfeillion a gyfrannodd eitemau o wybodaeth neu a alwodd sylw at wallau ac anghysondebau yn *Y Bywgraffiadur*.

Fe welir i mi newid ychydig ar y cynllun a oedd gan y Dr. R. T. Jenkins. I ddechrau, cefais ganiatâd Cyngor Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion i barhau i gadw'r teitl *Y Bywgraffiadur Cymreig* i bob cyfrol a gynhyrchir gan newid dim ond y cyfnodau, ar batrwm *Who was Who* yn Saesneg. Gan hynny, daeth y rhan y bwriadai'r cyn-Olygydd iddi fod yn ail i hawlio'r lle cyntaf, gan daflu'r cywiriadau a'r ychwanegiadau i atodiad iddi, yn hytrach na bod y cyfan yn ffurfio'r atodiad cyntaf i'r *Bywgraffiadur* gwreiddiol. Yn lle'r tair adran y cyfeiria R.T. atynt penderfynais eu bwrw'n un, am y byddai hynny'n golygu cael y cyfan o dan un wyddor ac yn hepgor cryn dipyn o groesgyfeirio a chythruddo defnyddwyr y gyfrol. Diolchaf i Mr. Ben G. Jones, Ysgrifennydd yr Anrhydeddus Gymdeithas am ei hynawsedd, ac i Wasg Gee am waith glân a chydweithrediad hapus.

E. D. JONES.

Mawrth 1970